

Hyder mewn Gofal

CANLYNIADAU'R ASTUDIAETH

Roedd yr astudiaeth Hyder mewn Gofal yn profi a yw'r cwrs hyfforddiant *Fostering Changes* i ofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau yn cynnig canlyniadau gwell na phe byddant wedi parhau i gael y cymorth a'r cyngor a ddarperir fel arfer yn unig.

Mae'r cwrs hyfforddiant *Fostering Changes* yn cael ei gynnig i ofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau yng Nghymru, gan gynnwys y rhai o dimau maethu Awdurdodau Lleol ac annibynnol. Mae'n para 12 wythnos, a'i nod yw gwella'r berthynas rhwng y gofalwr a'r plentyn, a pha mor dda y gall gofalwyr ymdopi ag ymddygiad heriol.

Y dulliau y gwnaethom eu defnyddio

- Cymerodd y gofalwyr maeth ran yn y cwrs *Fostering Changes* naill ai ar unwaith (y grŵp ymyrraeth) neu ar ôl 12 mis (y grŵp rheolydd). Cafodd y gofalwyr maeth eu dewis ar hap o ran pwy fyddai yn y grŵp ymyrraeth neu'r grŵp rheolydd; yn debyg i daflu ceiniog.
- Cyn i'r grŵp ymyrraeth gymryd rhan yn yr hyfforddiant, gwnaethom fesur sut roedd pob un o'r gofalwyr maeth (gan gynnwys y rhai yn y grŵp rheolydd) yn teimlo eu bod yn gallu gofalu am eu plentyn/plant maeth.
- Y prif fesur roedd gennym ddiddordeb ynddo oedd sut roeddent yn teimlo eu bod yn gallu ymdrin â sefyllfaoedd amrywiol.
- Gwnaethom eu holi am bethau eraill hefyd.
- Yna, gwnaethom fesur yr un pethau eto ar ddiwedd y cwrs hyfforddiant.
- Gwnaethom fesuriad terfynol ar ôl 12 mis.
- Gwnaethom hyn i ddarganfod a oedd y cwrs hyfforddiant *Fostering Changes* wedi cael effaith gadarnhaol ar ofalwyr maeth.
- Edrychom hefyd ar b'un a gyflwynwyd y cwrs hyfforddiant *Fostering Changes* yn unol â'r cynllun, a gwnaethom holi nifer o bobl am eu profiadau o gael a chyflwyno'r hyfforddiant.



Canlyniadau'r astudiaeth

- Roedd yr astudiaeth Hyder mewn Gofal yn fawr iawn ac yn cynnwys gofawyr o bob rhan o Gymru – cymerodd 312 o ofalwyr maeth ran (cymerodd 204 ohonynt ran mewn *Fostering Changes* ar unwaith, ac roedd 108 ohonynt yn gallu cymryd rhan ar ôl blwyddyn, os oeddent yn dymuno gwneud hynny) o 16 o awdurdodau lleol a thri o ddarparwyr maethu annibynnol yng Nghymru. Roedd hyn ond yn bosibl oherwydd y gofawyr maeth a gymerodd ran a'r darparwyr gwasanaeth wnaeth ein helpu – felly diolch yn fawr iawn i chi!



- At ei gilydd, yn ôl y mesurau y gwnaethom eu defnyddio, canfuom na wnaeth gofawyr maeth elwa mwy ar fynychu'r cwrs *Fostering Changes* nag y byddant o gael y gwasanaethau y byddant yn eu cael fel arfer.
 - Ar ddiwedd y cwrs hyfforddiant, canfuom fod mynychu'r cwrs *Fostering Changes* yn gwella ymddygiad plant a sgiliau ymdopi gofawyr. Fodd bynnag, nid oedd y gwelliannau hyn i'w gweld ar ôl 12 mis.
 - Ar ôl 12 mis, canfuom nad oedd mynychu'r cwrs *Fostering Changes* yn gwella pa mor abl roedd gofawyr yn teimlo o ran eu gallu i ymdopi â sefyllfaoedd amrywiol.
 - Nid oedd unrhyw wahaniaeth rhwng y grŵp ymyrraeth a'r grŵp rheolydd.
- Mewn llawer o ffyrdd, roedd gofawyr maeth yn teimlo'n eithaf cadarnhaol ynghylch y cwrs hyfforddiant *Fostering Changes*.

Ein casgliadau

- Cymerodd nifer fawr iawn o ofalwyr maeth a gofawyr sy'n berthnasau o bob rhan o Gymru ran, a chanfuom ei bod yn bosibl cynnal rhaglenni hyfforddiant ar raddfa fawr.
- Erbyn hyn, rydym yn gwybod am effeithiau hirdymor y cwrs *Fostering Changes*.
- Ni chanfuom unrhyw wahaniaeth rhwng y grŵp ymyrraeth a'r grŵp rheolydd yn ôl ein mesurau ar ôl 12 mis, ond roedd llawer o ofalwyr yn teimlo'n gadarnhaol am y cwrs ac yn mwynhau bod yn rhan o grŵp, sy'n gyferbyniad.



Beth nesaf?

Efallai nad yw'r rhaglen *Fostering Changes* yn ystyried gwahanol anghenion gofawyr maeth, er enghraifft o ran oedran y plant maent yn gofalu amdanynt neu'r heriau maent yn eu hwynebu, neu efallai bod y cwrs yn fwy addas ar gyfer gofalu am rai grwpiau o blant. Efallai y gallai targedu *Fostering Changes* (neu gwrs hyfforddiant tebyg yn y dyfodol) mwy fod yn ffordd i ofalwyr maeth elwa ar y cwrs.



For more information please see:

Cyhoeddiad Protocol Hyder mewn Gofal: <https://trialsjournal.biomedcentral.com/articles/10.1186/s13063-017-2424-3>

Cyhoeddiad Prif Ganlyniadau Hyder mewn Gofal: <https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2020.104646>

Cyhoeddiad Gwerthusiad o Broses Hyder mewn Gofal: [https://authors.elsevier.com/sd/article/S0145-2134\(20\)30423-3](https://authors.elsevier.com/sd/article/S0145-2134(20)30423-3)